Sut i Wneud Castanet Crocodeil o Gardfwrdd a Thopiau Poteli

Ar gyfer thema anifeiliaid yr wythnos hon roeddem yn meddwl y byddem yn gwneud castanet crocodeil!

Bydd angen…

- Rhywun i'ch helpu – pwysig iawn!
- Rhywfaint o gardfwrdd. Gwnaiff bocs cardfwrdd bach y tro!
- Dau dop potel – gall y rhain fod naill ai'n fetel neu'n blastig
- Beiro neu bensil
- Siswrn
- Papur
- Glud neu Selotep
- Dewisol: Paent a beiros i addurno'ch castanet. A llygaid gwgli!

Cam Un:

Lluniwch betryal hir ar eich cardfwrdd. Mae tua'r un maint â phren mesur 12 modfedd yn dda. Gofynnwch i'ch helpwr dorri eich petryal allan gan ddefnyddio'r siswrn.

Cam Dau:

Addurnwch eich castanet crocodeil gyda phaent, beiros neu beth bynnag arall sydd gennych. Gallech roi gynnig ar liwio'r cyfan o un ochr yn wyrdd, yna ychwanegu rhai dotiau mewn gwahanol fannau gan ddefnyddio lliw gwahanol. Os oes gennych bâr o lygaid gwgli gallwch chi roi rheini arno hefyd. Ac os oes gennych chi bapur, gofynnwch i'ch helpwr dorri trionglau gwahanol o faint, yna gallwch eu lliwio'n wyrdd, yna eu gludo ar hyd ben eich castanet fel y pigau crocodeil.

Cam Tri:

Plygwch eich petryal yn ei hanner fel ei fod yn edrych fel ceg. Gwnewch yn siŵr bod darnau lliw y castanet crocodeil ar y tu allan. Yna, gan ddefnyddio glud neu Selotep, atodwch un top potel i flaen gwaelod ceg y crocodeil a'r top potel arall ar yr ochr uchaf. Pan fyddwch chi'n cau ceg y crocodeil, dylen nhw glicio gyda'i gilydd.

Cam Pedwar:

Dyna ni! Chwaraewch eich castanet crocodeil drwy ei ddal â'ch bysedd ar ei ben a'ch bawd oddi tano. Brathwch wefusau'r crocodeil gyda'i gilydd i wneud sŵn brathu!